**Mae Peirianwyr Electronig yn cymhwyso Mathemateg a Gwyddoniaeth i ddefnyddio cydrannau fel y rhain i ddylunio ac adeiladu systemau cymhleth fel ffonau clyfar. Mae datblygiadau cyffrous mewn Electroneg yn golygu y gallwn ddatblygu cynhyrchion a helpu i drawsnewid ein ffordd o fyw; o ofal iechyd ac ynni i adloniant.**

## UKESF

Yn y DU, mae'r sector Electroneg yn fawr, yn werthfawr ac yn tyfu; fodd bynnag, mae'r galw am raddedigion galluog, cyflogadwy yn fwy nag erioed ar hyn o bryd. Mae'r UKESF yn elusen addysgol sy'n gweithredu ar y cyd gyda chwmnïau mawr, prifysgolion blaenllaw a sefydliadau eraill i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau.

**www.ukesf.org | info@ukesf.org**
**/UKESF | @theUKESF**

## Prifysgol Southampton

Mae Prifysgol Southampton yn ganolfan fyd-eang ar gyfer rhagoriaeth mewn ymchwil ac addysg, ac un o sylfaenwyr y Grŵp Russell mawreddog. Mae graddedigion Southampton yn uchel eu parch gan gyflogwyr blaenllaw a'r mae'r brifysgol yn gweithio'n agos gyda phartneriaid diwydiannol, ym meysydd addysgu ac ymchwil.

- Rydym yn adeiladu ar dros 70 mlynedd o arbenigedd ar draws electroneg a chyfrifiadureg i ddatblygu technolegau ar gyfer byd sydd yn fwy a mwy cysylltiedig ac awtomataidd;
- Mae ein hystod o raddau peirianneg electroneg a chyfrifiadureg wedi'i llywio gan ein hymchwil, ac mae damcaniaeth uwch wedi'i hategu gan waith ymarferol yn ein labordai o'r radd flaenaf
- Trwy ein haddysgu a arweinir gan ymchwil a chysylltiadau eithriadol â diwydiant, rydym yn paratoi ein myfyrwyr ar gyfer heriau'r dyfodol nad ydynt wedi'u dychmygu eto a swyddi sydd heb eu creu eto.

**www.ecs.soton.ac.uk**
**/ECSUoS | @ECSUoS**

## I ddarganfod mwy

Am fwy o adnoddau, gan gynnwys tiwtorialau ar sut i ddefnyddio'r bwrdd, fideos cysylltiedig i'r cysyniadau a'r technolegau a ddefnyddir, ewch i:
**www.ecs.soton.ac.uk/kits**

University of Southampton

UK Electronics Skills Foundation

# Cymysgydd Cerddoriaeth

## Canllaw Myfyriwr

**Lefel A Ffiseg**

**Pecyn Electroneg**




- = Gwrthydd
- = Gwrthydd Newidol
- = Cynhwysydd
- = Deuod Allyrru Golau
- = Amedr
- = Foltmedr
- = Daear
- **V** = 5V
- **S** = Swits
- **TP** = Pwynt Profi
- = Pennawd Pin
- = Soced Pin

## Cymysgydd Cerddoriaeth

- Mae Cymysgydd Cerddoriaeth yn defnyddio mwynhadur symio i adio dau signal sain mewnbwn. Mae'r rhanwyr potensial yn newid y foltedd, ac felly maint bob un.
- *Gellir defnyddio yr mwynhadur gweithredol i gynyddu a mesur curiad y galon ddynol. Oeddech chi yn gwybod eu bod wedi'i ffurfweddu i dynnu signalau, neu hyd yn oed berfformio gwahaniaethu neu integreiddio rhifiadol?*

## Dadwefru Cynhwysydd

- Gellir cysylltu cynhwysyddion mewn cyfres a paralel. Gwiriwch eu cyfradd dadwefru drwy wahanoln wrthyddion.
- *Mae cynhwysyddion yn bresenol yn y rhan fwyaf o ddyfeisiadau electroneg, ac yn galluogi cymwysiadau megis rheolyddion calon cardiaidd a fflachiadau camera*

## Cysonyn Planck

- Drwy fesur nodweddion cerrynt-folteddLEDs gwahanol gallwch amcangyfrif cysonyn Planck.
- *Mae'r rhan yma o'r bwrdd yn cynnwys pedwar LED. Oeddech chi'n gwybod fod teledu OLED 4K yn cynnwys cymaint â 33 Miliwn o LEDs?!*